O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 654 (Cy. 74)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Morben Isaf, Derwenlas, Machynlleth, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*14 Mawrth 2013*
Yn dod i rym	*14 Mawrth 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Morben Isaf, Derwenlas, Machynlleth, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 14 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (*“length of the trunk road”*) yw'r darn hwnnw o Gefnffordd yr A487 yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 690 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo a elwir Parc Carafannau Morben Isaf i bwynt 110 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt yr U2491 yn Nerwenlas.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwahardd a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, sy'n fwy na 2.5 o fetrau o led, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru, ar y darn o'r gefnffordd.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

Cymhwyso

8. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

9. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 14 Mawrth 2013

R Morgan

R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.